



Cyngor Bro Morgannwg

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg
Grefyddol
(CYSAG)**

Adroddiad Blynyddol 2021-2022

CYNGOR BRO MORGANNWG

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL**ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021–2022**

CYNNWYS	TUDALEN
NEGES GAN CYSAG BRO MORGANNWG	3
ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG	4
1.1 Dyletswydd i sefydlu CYSAG	4
1.2 Cyfansoddiad CYSAG	4
1.3 Aelodaeth CYSAG	4
1.4 Swyddogaethau CYSAG	4
1.5 Cofnodion Cyfarfodydd	5
1.6 Dosbarthu'r Adroddiad	5
ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL	6
2.1 Y Maes Llafur Cytunedig Lleol	6
2.2 Safonau mewn Addysg Grefyddol	6
2.3 Datblygiadau Cwricwlwm	7
2.4 Arholiadau	9
2.5 Adroddiadau Arolygu Ysgolion	9
2.6 Dysgu Proffesiynol i Ymarferwyr	9
2.7 Addysgeg ac Adnoddau	10
ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD	13
3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion	13
3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau	13
3.3 Ymweliadau ag Ysgolion	13
ADRAN 4: MATERION ERAILL	14
4.1 CCYSAGauC	14
4.2 Y Panel Ymgynghori Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol (PYCAG)	14
4.3 Hyfforddi Aelodau CYSAG	14
ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG 2021-2022	16
ATODIAD 2: AMSERLEN AC AGENDA CYFARFODYDD	18
ATODIAD 3: CYLCHREDIAD YR ADRODDIAD	19
ATODIAD 4: CYFANSODDIAD CYSAG	20

ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL BRO MORGANNWG

2021-2022

NEGES GAN AELODAU CYSAG BRO MORGANNWG

Parhaodd blwyddyn academaidd 2021-2022 i fod yn gyfnod digynsail i bobl oherwydd effaith pandemig COVID-19. Mae meddyliau aelodau CYSAG gyda phawb sydd wedi cael eu heffeithio gan y feirws, gan gynnwys y rhai sydd wedi mynd yn sâl a'r rhai a allai fod wedi colli anwyliaid.

Hoffai'r aelodau hefyd fynegi diolch i bawb yn y sector addysg am y gwaith rhagorol yr ydych yn ei wneud i ddarparu gofal, cymorth ac addysg i blant a phobl ifanc yng Nghymru drwy gydol y cyfnod anodd hwn.

Mae'r awdurdod lleol a CYSAG wedi gallu darparu cymorth i ysgolion trwy e-bost a thrwy bartneriaeth â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (Consortiwm Canolbarth y De). Mae cynghorydd cyswllt Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer addysg grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a CYSAG, Donna Graves, wedi bod ar gael i roi cyngor a chymorth i ysgolion ar addysg grefyddol, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd drwy gydol y cyfnod hwn ac mae wedi gweithio gyda Chymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGauC) a'r Panel Cynghori Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol (PYCAG). Yn ogystal, mae clerc CYSAG wedi parhau i ddsbarthu gohebiaeth berthnasol i ysgolion a'i derbyn oddi wrthynt. Symudwyd cyfarfodydd CYSAG ar-lein, i barhau â'u swyddogaeth yn ystod COVID-19.

Hoffai'r aelodau atgoffa ymarferwyr sy'n ymwneud ag addysg grefyddol / astudiaethau crefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg bod CYSAG yma i'ch cefnogi gyda chynngor ar addysgu, dysgu ac adnoddau. Yn ogystal, mae cymorth CYSAG hefyd ar gael ar gyfer y weithred ddyddiol o addoli ar y cyd.

Mae CYSAG Bro Morgannwg yn croesawu gohebiaeth drwy'r cysylltiadau isod:

Clerc CYSAG Bro Morgannwg: jmorgan@valeofglammorgan.gov.uk

ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG

1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ffurfio Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) o fewn ei ardal leol.

1.2 Cyfansoddiad CYSAG

Pennir aelodaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol gan Ddeddfau Addysg 1944 a 1993, Deddf Diwygio Addysg 1988, a Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Mae gan CYSAG dri grŵp cyfansoddol ac mae pob grŵp â hawl i un bleidlais:

- a. Enwadau Cristnogol ac enwadau crefyddol eraill fydd, ym marn yr awdurdod lleol, yn adlewyrchu'n briodol y traddodiadau crefyddol yn yr ardal, yn ogystal â phobl sy'n cynrychioli deiliaid credoau anghrefyddol yn yr un modd ag y mae'n caniatáu penodi pobl sy'n cynrychioli deiliaid credoau crefyddol.

Rhaid i'r credoau anghrefyddol y mae'r sawl a benodir yn glynu wrthynt fod yn gyfatebol i gred grefyddol. I fod yn "gyfatebol", ystyriwn fod yn rhaid i'r credoau anghrefyddol, yn unol â chyfraith achos o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998, gyrraedd y lefel angenrheidiol o rym, difrifoldeb, cydlyniant a phwysigrwydd i gael eu hamddiffyn o dan hawliau'r confensiwn.

Mae penodiad yn dibynnu ar farn CYSAG ynghylch p'un a fyddai deiliad credoau anghrefyddol yn helpu i sicrhau bod y traddodiadau perthnasol yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yng Ngrŵp A. Y CYSAG sydd â'r penderfyniad terfynol ynghylch penodiad, gan mai ef sydd yn y sefyllfa orau i asesu a oes gan y CYSAG yr arbenigedd a phrofiad angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaeth yn briodol.

- b. Cymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon a ddylai, ym marn yr awdurdod lleol, gael eu cynrychioli o ystyried amgylchiadau'r ardal.
- c. Yr awdurdod lleol.

1.3 Aelodaeth CYSAG

Mae'r aelodau sy'n cynrychioli pob un o'r grwpiau hyn ar gyfer 2021-2022 wedi'u rhestru yn Atodiad 1.

1.4 SWYDDOGAETHAU CYSAG

Prif swyddogaeth CYSAG yw:

- cynghori'r awdurdod lleol am addysg grefyddol ac addoli ar y cyd
- ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod adolygu'r maes llafur cytunedig
- ystyried ceisiadau gan ysgolion am benderfyniadau (i'w heithrio o'r gofyniad bod addoli yn "Gristnogol")

- cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith
- chwarae rhan yn y weithdrefn gwyno statudol leol lle caiff achosion eu cyfeirio ati sy'n ymwneud ag addysg grefyddol neu addoli ar y cyd

Gall cyngor ymwneud ag:

- addysgeg
- y dewis o adnoddau addysgu
- darpariaeth dysgu proffesiynol
- unrhyw fater arall yn ymwneud ag addysg grefyddol, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac addoli ar y cyd y mae CYSAG yn ei ystyried yn briodol

1.5 COFNODION CYFARFODYDD

Cynhaliwyd tri chyfarfod CYSAG ar blatfform rhithwir Microsoft Teams yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022:

- Dydd Mercher 3 Tachwedd 2021
- Dydd Mercher 9 Mawrth 2022
- Dydd Mercher 15 Mehefin 2022

Mae cofnod o'r prif eitemau ar yr agenda a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd i'w weld yn Atodiad 2.

1.6 Dosbarthu'r Adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn wedi'u dosbarthu i'r sefydliadau a restrir yn Atodiad 3.

ADRAN 2: CYNGOR A RODDWDYD GAN CYSAG

2.1 Y Maes Llafur Cytunedig Lleol

Mae Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig Bro Morgannwg wedi cyflawni ei gofyniad cyfreithiol i adolygu a chytuno ar y maes llafur cytunedig ar gyfer addysg grefyddol yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae CYSAG Bro Morgannwg yn cefnogi'r maes llafur a sefydlwyd gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig. Mae hyn yn cynnwys maes llafur cytunedig lleol newydd yn unol â'r gofynion ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Ym mis Ionawr 2022, cymeradwyodd y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ail-fabwysiadu maes llafur cytunedig presennol Bro Morgannwg ar gyfer addysg grefyddol gyda'r ddealltwriaeth y byddai maes llafur cytunedig Cwricwlwm i Gymru yn disodli'r maes llafur wrth iddo gael ei gyflwyno ar draws ysgolion a lleoliadau o fis Medi 2022. Mae ysgolion uwchradd wedi cael eu cynghori i barhau i ddilyn y maes llafur hwn hyd nes y cwblheir cyflwyno'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roedd y maes llafur hwn wedi cael ei ailfabwysiadu yn flaenorol yn 2013.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau statudol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar Hwb ar 10 Ionawr 2022. Cynghorodd CYSAG i'r awdurdod lleol, parthed y canllawiau statudol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gynnull y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Rhwng Ionawr a Gorffennaf 2022, daeth y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ynghyd i lunio maes llafur cytunedig newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, i'w gyflwyno i Gyngor Bro Morgannwg. Ym mis Gorffennaf 2022, mabwysiadodd Cyngor Bro Morgannwg a CYSAG faes llafur cytunedig newydd i ysgolion yr awdurdod, i'w weithredu o fis Medi 2022 ar gyfer holl ddysgwyr ysgolion cynradd, hyd at ac yn cynnwys dysgwyr Blwyddyn 6. Ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7, bydd gan ysgolion y rhanbarth hyblygrwydd o ran p'un ai i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, neu i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Blwyddyn 7 ac 8 gyda'i gilydd ym mis Medi 2023. Yn ystod cyfnod cyflwyno'r cwricwlwm, wrth i ysgol uwchradd neu leoliad 'fabwysiadu' y Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar gyfer grŵp blwyddyn penodol, bydd y maes llafur cytunedig hwn yng Nghyngor Bro Morgannwg yn disodli maes llafur cytunedig presennol / hen faes llafur cytunedig Cyngor Bro Morgannwg.

Mae'r maes llafur cytunedig newydd hwn yn nodi'r manylion ynghylch addysgu a dysgu yn yr elfen orfodol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer pob ysgol a lleoliad a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae'r ddogfen wedi'i mabwysiadu fel y maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Mro Morgannwg, yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi mabwysiadu'r ddogfen fel y maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym mis Mai 2022, yn dilyn argymhelliad ffurfiol i'r awdurdod lleol gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ym mis Gorffennaf 2022. Mae copiau o faes llafur cytunedig 2022 Cyngor Bro Morgannwg ar gael ar wefan y cyngor a gwefan Consortiwm Canolbarth y De a chan glerc CYSAG.

2.2 Safonau mewn Addysg Grefyddol

Darparodd CYSAG gyngor i'r awdurdod lleol ar safonau mewn addysg grefyddol. Fodd bynnag, mae pandemig COVID-19 wedi ei gwneud yn amhosibl i CYSAG gynnal ymweliadau ysgol. Mae newidiadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ddata

perfformiad ysgolion ac adrodd ar ddata asesu Cyfnod Allweddol 3 wedi newid y ffordd y mae CYSAG wedi gallu monitro perfformiad ysgolion mewn addysg grefyddol yn y sector uwchradd. Mae CYSAG wedi parhau i edrych yn adroddiadau Estyn am dystiolaeth o safonau'r ddarpariaeth addysg grefyddol, ac ni chodwyd unrhyw faterion o ran addysg grefyddol nac addoli ar y cyd.

2.3 Y Cwricwlwm

Mae CYSAG wedi derbyn diweddariadau tymhorol a chyingor manwl gan gynghorydd cyswllt Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer addysg grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a CYSAG ynghylch datblygiadau cwricwlwm mewn perthynas ag addysg grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd. Ar ôl pasio'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), bydd addysg grefyddol, o fis Medi 2022, yn cael ei hailenwi'n 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'. Bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad cwricwlwm statudol o 3 oed hyd at 16 oed a bydd yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn dileu hawl bresennol rhieni i dynnu plant allan o bob elfen o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu ran ohoni, yng Nghymru. Mae newidiadau sylweddol hefyd mewn perthynas â statws meysydd llafur cytunedig lleol sydd wedi'u trafod gan CYSAG. Gohiriwyd cyhoeddi'r canllawiau statudol terfynol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg tan 10 Ionawr 2022. Mae aelodau CYSAG wedi derbyn gwybodaeth a chyingor manwl ar y canllawiau statudol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gyda chyfleoedd i roi sylwadau a chwestiynau. Cynullwyd Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig Bro Morgannwg gan yr awdurdod lleol, yn unol â deddfwriaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru. Ym mis Chwefror 2022, cymeradwyodd y gynhadledd sefydlog ailfabwysiadu maes llafur cytunedig presennol Bro Morgannwg ar gyfer addysg grefyddol gyda'r ddealltwriaeth y byddai maes llafur cytunedig Cwricwlwm i Gymru yn disodli'r maes llafur wrth iddo gael ei gyflwyno ar draws ysgolion a lleoliadau o fis Medi 2022. Mae ysgolion uwchradd wedi cael eu cynghori i barhau i ddilyn y maes llafur hwn hyd nes y cwblheir cyflwyno Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Cynghorwyd CYSAG ar y newidiadau i'r cwricwlwm o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ar gyfer system addysg gwbl gynhwysol lle mae pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal at gwricwlwm eang a chytbwys ac yn gwneud cynnydd tuag at y "pedwar diben" a argymhellir yn Adolygiad Donaldson. Fel rhan o'r mynediad cyfartal hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi newid y ddeddfwriaeth ynghylch hawl rhieni i dynnu'n ôl o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg o dan y cwricwlwm newydd. Mae hawl gyfreithiol rhieni i dynnu eu plentyn o addoli ar y cyd yn dal mewn grym gan fod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd yn endidau ar wahân. Cynhaliodd CYSAG drafodaethau ynghylch ymholiadau a phryderon posibl gan randdeiliaid yn y dyfodol ynghylch y mater hwn. Bu CYSAG hefyd yn archwilio'r newidiadau i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel gofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae'r canllawiau yn nodi'r canlynol: *"Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes y Dyniaethau (Maes). Mae'r Maes hwn yn cwmpasu daearyddiaeth; hanes; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; astudiaethau busnes. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o'r un themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy, ac yn cynnwys eu gwybodaeth a'u sgiliau gwahanol eu hunain hefyd."* <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/%23religion,-%20values-and-ethics-guidance> Trafododd CYSAG y ffaith y dylai maes llafur cytunedig newydd Bro Morgannwg adlewyrchu'r canlynol:

- bod y traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn Gristnogol yn bennaf wrth gymryd i ystyriaeth ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru
- y ffaith fod ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn cael eu dal yng Nghymru

Trafododd CYSAG fod angen i ysgolion a lleoliadau Bro Morgannwg hefyd roi sylw i'r newidiadau deddfwriaethol canlynol a fydd yn cael effaith sylweddol ar ysgolion:

- Nid oes hawl gan rieni i dynnu eu plant allan o'r pwnc academaidd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru
- Rhaid i ysgolion a gynhelir â phlant oed meithrin a lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer eu holl ddysgwyr o 3 oed, o fis Medi 2022

Mae'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cynnig cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg penodol, yn ogystal â'r cysyniadau a ddarperir yn orfodol yn y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ym maes y Dyniaethau. Mae'r "[Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn y maes hwn](#)" yn caniatáu i ddysgwyr archwilio ac ymgysylltu'n feirniadol ag ystod eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol, y dylid eu hystyried yn ofalus a bod yn sail i gynllun y cwricwlwm. Yn ogystal, mae'r canllawiau hyn yn cynnig lens ddisgyblaethol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gallent helpu ysgolion a lleoliadau i ystyried cynnwys perthnasol wrth gynllunio eu cwricwlwm. Yn y canllawiau mae'n nodi: *"mae lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i rhannu'n nifer o is-lensys a ddefnyddir i edrych ar gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'u harchwilio. Mae'r is-lensys yn gydgysylltiedig ac ni fwriedir iddyn nhw fod yn unedau nac yn destunau. Maen nhw'n seiliedig ar gorff cydnabyddedig o wybodaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng Nghymru ac yn helpu i sicrhau ehangder a dyfnder digonol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Maes y Dyniaethau. Mae'r is-lensys yn cyd-fynd â'r holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac maen nhw hefyd yn berthnasol i Feysydd eraill ac i'r gwaith o wireddu'r pedwar diben. Maen nhw'n helpu ysgolion a lleoliadau i adnabod agweddau arwyddocaol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac yn tynnu sylw at gyfleoedd i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig er mwyn helpu i gynllunio'r cwricwlwm."* <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#religion,-values-and-ethics-guidance> <<https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/>>

Bu CYSAG a'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn trafod datblygiad ysbrydol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Un o nodweddion **pedwar diben** y cwricwlwm yw y bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i ddatblygu fel unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gallu gwneud llawer o gyfraniadau gwerthfawr a nodedig i hyn.

Bydd CYSAG Bro Morgannwg yn parhau i ddarparu deunyddiau ategol, yn ogystal â'r maes llafur cytunedig, i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt gynllunio'r cwricwlwm ac yn eu haddysgeg, gan gynnig ehangder a dyfnder o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau i ddysgwyr ar draws y rhanbarth. Bydd y rhain yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ac maent wedi'u cynllunio i ddarparu cymorth parhaus i ymarferwyr. Bwriedir i'r rhain fod yn ddogfennau, deunyddiau ac adnoddau 'byw' a gweithredol i adlewyrchu esblygiad y Cwricwlwm i Gymru.

2.4 Canlyniadau Arholiadau

Trwy rwydweithiau ymarferwyr Consortiwm Canolbarth y De, cafodd ysgolion ddiweddariad ar y newidiadau i arholiadau TGAU a TAG 2022 ar gyfer Astudiaethau Crefyddol. Cododd yr ymarferwyr a chynghorydd cyswllt Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer addysg grefyddol / Crefydd, Gwerthodd a Moeseg a CYSAG faterion yn ymwneud ag arholiadau Astudiaethau Crefyddol a rhannwyd safbwyntiau gyda CYSAG, CCYSAGauC, PYCAG a CBAC.

Yn ystod 2022-2023, bydd CYSAG yn trafod ffyrdd y bydd yr awdurdod lleol yn gallu darparu gwybodaeth ystyrlon i CYSAG am ansawdd addysg grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol yn CA4 o fewn ei ysgolion.

Hysbyswyd CYSAG a thrafodwyd yr heriau cenedlaethol sy'n wynebu addysg grefyddol / astudiaethau crefyddol a'r gostyngiad mewn ceisiadau ar lefel TGAU a Safon Uwch. Cyhoeddodd Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr adroddiad. Rhoddwyd diweddariad cenedlaethol i CYSAG a thrafodwyd pryderon. Cafodd pryderon eu rhannu gyda CCYSAGauC a PYCAG.

2.5 Adroddiadau Arolygu Ysgolion

Er mwyn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, mae CYSAG yn ystyried adroddiadau arolygu ac arolygon Estyn. Yn ystod tymor y gwanwyn, cynhaliwyd arolygiad mewn chwe ysgol gynradd ym Mro Morgannwg a thair ysgol uwchradd. Cafodd sylwadau cadarnhaol am wybodaeth disgyblion am foesau a materion moesegol. Gwnaed sylwadau gan Estyn sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Roedd CYSAG yn falch iawn o nodi'r sylwadau cadarnhaol ar addysg grefyddol, addoli ar y cyd, a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Os bydd unrhyw faterion yn codi ynghylch addysg grefyddol, megis diffyg cyflawni gofynion statudol, yna bydd yr awdurdod lleol yn mynd ar drywydd hyn, gan ofyn am gynllun gweithredu'r ysgol. Ni wnaeth Estyn unrhyw argymhellion o'r fath mewn perthynas â datblygiad ysbrydol, addoli ar y cyd nac addysg grefyddol yn yr ysgolion hyn.

Mae CYSAG yn ymwybodol o newidiadau yn y naratif adrodd gan Estyn yn ei adroddiadau arolygu ar gyfer ysgolion. Mae pryderon yn ymwneud â'r newidiadau hyn a'r arddull llai addysgiadol ar ddatblygiad ysbrydol, addysg grefyddol statudol ac addoli ar y cyd wedi'u rhannu â CCYSAauC, Estyn, yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt o ran monitro darpariaeth y cwricwlwm, addysgeg a safonau yn y meysydd hyn er mwyn i CYSAG gyflawni ei ddyletswydd i adrodd ar y rhain.

2.6 Dysgu Proffesiynol

Mae CYSAG wedi parhau i roi cyngor ac arweiniad i ysgolion ar addysgeg ac adnoddau. Mae Consortiwm Canolbarth y De, fel darparwr rhanbarthol gwasanaethau gwella ysgolion a chymorth dysgu proffesiynol i ysgolion ac

ymarferwyr, wedi darparu ystod eang o raglenni, deunyddiau a dulliau dysgu proffesiynol a rennir ag ysgolion yn y rhanbarth.

Penododd Consortiwm Canolbarth y De ymarferydd arweiniol ar gyfer astudiaethau crefyddol i arwain cyfarfodydd y Rhwydwaith Astudiaethau Crefyddol Uwchradd bob hanner tymor. Ffocws cyfarfodydd y rhwydwaith oedd gwella safonau mewn TGAU Astudiaethau Crefyddol. Fodd bynnag, mae'r ymarferwyr sy'n mynychu hefyd yn derbyn hyfforddiant ar y Cwricwlwm i Gymru a diweddariadau ar waith CYSAG, CCYSAGauC a chyrrff perthnasol eraill. Roedd ffocws hefyd ar safoni, rhannu arferion da, a chydweithio wrth ddatblygu adnoddau ar gyfer Astudiaethau Crefyddol.

Hwylusodd y consortiwm Rhwydwaith Ymarferwyr Arweiniol Dyniaethau Cynradd newydd, sef rhwydwaith a arweinir gan athrawon a fynychir gan ymarferwyr cynradd ym maes y Dyniaethau a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae cyfarfodydd bob hanner tymor wedi'u cynnig ar-lein ac yn canolbwyntio'n bennaf ar gynllunio'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Dyniaethau, rhannu arferion da, a chydweithio wrth ddatblygu adnoddau.

Dywedwyd wrth CYSAG fod Consortiwm Canolbarth y De wedi buddsoddi yn y gallu i ddarparu cymorth pwrpasol ar gyfer addysg grefyddol / astudiaethau crefyddol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae hyn yn galluogi ysgolion i gael cymorth uniongyrchol gan y cynghorydd cyswllt ar gyfer addysg grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a CYSAG – er enghraifft, er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru a chynllunio eu cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Dyniaethau. Mae ysgolion clwstwr hefyd yn gweithio gyda'i gilydd, gyda chefnogaeth y cynghorydd, i ddatblygu cynllun eu cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Dyniaethau, a chydweithio arno, a hynny ar hyd y continwrm dysgu, o 3 i 16 oed. Mae cymorth pwrpasol yn cael ei froceru trwy bartner gwella ysgolion, sy'n caniatáu ysgolion i feithrin gallu a chynyddu perchnogaeth gyfunol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, addysgeg ac arweinyddiaeth. Mae'r model hwn yn dod yn brif sbardun y gwaith o sicrhau gwreiddu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Medi 2022 a chyflwyno dysgu proffesiynol a bydd yn cefnogi'r newidiadau cenedlaethol mewn atebolrwydd a hunanwerthuso. Gall ymarferwyr Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael mynediad at ddysgu proffesiynol ac adnoddau ar addysgeg Consortiwm Canolbarth y De.

2.7 Addysgeg ac Adnoddau i Ymarferwyr

Mae egwyddor sybsidiaredd yn y Cwricwlwm i Gymru, a Chonsortiwm Canolbarth y De, wedi cynnig ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol i bob ymarferydd yn y rhanbarth, gan ganolbwyntio ar rannu arferion a grymuso athrawon. Mae enghreifftiau o'r adnoddau a'r deunyddiau a rannwyd i gefnogi ysgolion gan Gonsortiwm Canolbarth y De a CYSAG yn cynnwys:

- Yn ystod Wythnos Ryng-ffydd 2021, dydd Sul 14 Tachwedd i ddydd Sul 21 Tachwedd, roedd adnoddau'n cynnwys cynlluniau gwersi, astudiaethau achos, a deunydd addoli ar y cyd sy'n addas ar gyfer ysgolion cynradd ac ôl-16 <https://www.interfaithweek.org>
- Thema 'Un Diwrnod' Diwrnod Cofio'r Holocost 2022 gydag adnoddau sy'n cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd / gwasanaeth, a thafleuni gwaith sy'n addas ar gyfer myfyrwyr cynradd i ôl-16 www.hmd.org.uk

- Adnoddau a chyngor CCYSAGauC ar gyfer addysg grefyddol ac addoli ar y cyd
- Ymgynghoriadau a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Dyniaethau a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Cyfarfodydd y Rhwydwaith Astudiaethau Crefyddol Uwchradd ar gyfer arweinwyr cwricwlwm
- Cyfarfodydd y Rhwydwaith Dyniaethau Cynradd ar gyfer holl ymarferwyr Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg cynradd
- Deunyddiau 'Archwilio dulliau o ddatblygu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg cyfoethog o fewn y Cwricwlwm i Gymru', a luniwyd gan Lat Blaylock o RE Today, ar gyfer ymarferwyr cynradd ac uwchradd
- Rhannwyd calendr addysgol ar gyfer dathliadau crefyddol ag ysgolion
- Rhannwyd manylion 'Prosiect Gwersi o Auschwitz' ag ysgolion
- Adnoddau addysgu newydd Humanists UK gan www.understandinghumanism.org.uk ac y gallai ysgolion ofyn am siaradwr dyneiddiol lleol
- Cysylltiadau a deunyddiau 'Pererindod yr Eglwys yng Nghymru – Gŵyr'
- Adnodd 'Hanes Crefydd yng Nghymru'
- Adnoddau Mis Hanes LHDTG+
- Adnoddau ar BBC Bitesize ar gyfer CA3 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, 'Hunaniaeth, Perthyn a Chynefin'
- Adnoddau 'Cydsafiad gyda Ffoaduriaid: Syniadau addysgu creadigol ar gyfer adnoddau dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3'
- Y Prosiect Cynllunio'r Cwricwlwm traws-ranbarthol gydag adnoddau Lucy Crehan wedi'u cyhoeddi ar Hwb
- Adnoddau a doler i wefan Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru i gefnogi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg <https://www.jhasw.com/>.
- Y cyfweiliad â'r Athro Brian Cox ar raglen Sunday Morning yn dangos persbectif dwys, athronyddol ac ysbrydol wrth siarad am y 'cwestiynau mwyaf' oll, gan fynd i'r afael â Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ym MDPH y Dyniaethau ynghyd â Meysydd Dygsu a Phrofiad eraill <https://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/m0017pff/sunday-morning-22052022>
- Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, 'Addysgu pynciau llosg: Canllaw i athrawon', sy'n archwilio gwerth defnyddio dull dinasyddiaeth fyd-eang o addysgu am faterion dadleuol i bob grŵp oedran, gan gynnwys arweiniad, strategaethau ystafell ddosbarth a gweithgareddau addysgu ymarferol: <https://hwb.gov.wales/repository/resource/dda70ba6-e800-4a61-a066-5ab2608c12cf>

Yn ystod y pandemig, lluniodd cynghorydd cyswllt Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg / addysg grefyddol a CYSAG ystod gynhwysfawr o adnoddau ystafell ddsbarth y gellir eu cyrchu yn rhad ac am ddim ar gyfer addysg grefyddol. Roedd y rhain ar gael i holl ysgolion Bro Morgannwg ac yn cynnwys posteri gwybodaeth i'w defnyddio gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill, e.e. 'Beth sydd wedi Newid yng Nghrefydd, Gwerthoedd a Moeseg?', 'Beth sydd heb ei newid yng Nghrefydd, Gwerthoedd a Moeseg?', 'Beth yw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?' a 'Teithiau Dysgu yng Nghrefydd, Gwerthoedd a Moeseg'.

Gwahoddwyd athrawon i rannu arferion da gyda CYSAG yn y cyfarfodydd.

Comisiynodd CCYSAGauC ddysgu proffesiynol penodol yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, ac mae CYSAG wedi croesawu'r cynllun peilot a'r cyflwyniad cyn cyflwyno'r cyhoeddiad yn nhymor yr hydref yn 2022. **Bydd y deunyddiau hyn yn cael eu rhannu ag ysgolion pan fyddant ar gael.**

ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD

3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion

Mae CYSAG wedi parhau i sicrhau ei fod yn cefnogi ysgolion i gyflawni eu gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd a darparu profiad gwerth chweil i ddisgyblion. Mae CYSAG wedi monitro adroddiadau Estyn ar gyfer argymhellion sy'n ymwneud ag addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ac mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael ag unrhyw fethiant i gyflawni gofynion statudol trwy ofyn am gynllun gweithredu'r ysgol. Mae CYSAG wedi parhau i hysbysu ysgolion am wybodaeth ac adnoddau priodol yn ymwneud ag addoli ar y cyd. Oherwydd pandemig COVID-19, bu heriau o ran monitro ac arsylwi addoli ar y cyd gan CYSAG yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Mae addoli ar y cyd yn cael ei arolygu ar wahân i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ond mae hefyd yn eistedd o fewn Maes Arolygu 4 o dan ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol a chyfeirir ato'n benodol: 'Ym mhob ysgol nad yw'n darparu addysg enwadol, dylai arolygwyr ystyried a oes gweithredoedd priodol o addoli ar y cyd.' Nid oedd unrhyw arwydd o ddiffyg cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd yn adroddiadau arolygu'r rhanbarth ar gyfer 2021-2022.

Mae canllawiau CCYSAGauC ar addoli ar y cyd ar gael i ysgolion trwy wefan Consortiwm Canolbarth y De, rhwydweithiau cymunedol a sesiynau dysgu proffesiynol.

3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau gan ysgolion i benderfyniadau gael eu gwneud ar godi'r gofynion i addoli ar y cyd fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o gymeriad Cristnogol bras.

3.3 Ymweliadau ag Ysgolion

Nid oedd unrhyw ymweliadau ysgol yn bosibl eleni oherwydd pandemig parhaus COVID-19. Y gobaith yw, wrth i'r sefyllfa wella, y bydd aelodau'n gallu ymweld ag ysgolion ac y gellir cynnal o leiaf un cyfarfod y flwyddyn academaidd yn un o ysgolion Bro Morgannwg, gyda mewnbwn gan ymarferwyr, arweinwyr a dysgwyr.

ADRAN 4: CRYNODEB O FATERION ERAILL

4.1 CCYSAGAUC

Mae CYSAG yn parhau i gefnogi gwaith CCYSAGauC ac yn cydnabod gwerth y corff wrth hyrwyddo addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn genedlaethol. Gwahoddir CYSAG i anfon hyd at bedwar aelod i bob cyfarfod CCYSAGauC bob tymor ac mae cynghorydd cyswllt Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer addysg grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a CYSAG yn derbyn adborth rheolaidd ganddynt hwy a chynrychiolwyr eraill sy'n mynychu cyfarfodydd CCYSAGauC. Cynhelir trafodaethau llawn yn CYSAG ar y materion a godwyd gan CCYSAGauC. Cynhaliwyd holl gyfarfodydd CCYSAGauC ar gyfer 2021-2022 a'r cyfarfod cyffredinol blynyddol ar-lein gan ddefnyddio platfform rhithwir Microsoft Teams.

4.2 Y Panel Ymgynghori Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol (PYCAG)

Cynrychiolwyd CYSAG yn llawn ar PYCAG gan gynghorydd cyswllt Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer addysg grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a CYSAG. Mae hyn wedi helpu CYSAG i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau ledled Cymru ac mae wedi'i alluogi i chwarae rhan hanfodol wrth lywio penderfyniadau a pholisïau sy'n effeithio ar addysg grefyddol. Mae PYCAG wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd, ac eleni ar ddatblygu canllawiau statudol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae CYSAG hefyd wedi derbyn adroddiadau a gwybodaeth eleni gan Estyn a Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

4.3 Hyfforddi Aelodau CYSAG

Fel rhan o'i hyfforddiant i aelodau, mae CYSAG wedi:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar ddatblygiadau mewn addysg grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd trwy gyflwyniadau, trafodaethau a chynghor rheolaidd gan gynghorydd cyswllt Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer addysg grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a CYSAG i aelodau CYSAG
- trafod bwriadau i gynnal cyfarfodydd yn y dyfodol mewn manau addoli ym Mro Morgannwg i aelodau ymgyswrtu â'r cymunedau ffydd, pan fo'r sefyllfa gyda'r pandemig yn caniatáu hynny
- ystyried ailsefydlu cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion lleol fel y gall aelodau weld cyd-destunau addysgol uniongyrchol ar gyfer addysg grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ysgolion Bro Morgannwg a chael cyfleoedd i gael eu hannerch gan athrawon, arweinwyr a dysgwyr addysg grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- gwahodd ei aelodau i fynychu tri chyfarfod blynyddol Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGauC) yn ogystal â sicrhau bod y CYSAG yn cael ei gynrychioli yn CCYSAGauC gan gynghorydd cyswllt Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer addysg grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a CYSAG, a roddodd adborth manwl o'r cyfarfodydd hyn i aelodau CYSAG

- cynnal sesiynau hyfforddi gweminar rhad ac am ddim ar-lein gyda Chymdeithas Genedlaethol y Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (NASACRE) <https://nasacre.org.uk/training-and-support/>
- sicrhau bod llawlyfr CCYSAGauC ar gyfer aelodau newydd CYSAG wedi'i rannu ag aelodau mewn cyfarfodydd <https://drive.google.com/file/d/1Fblfp8Wk5NZFUZD1BFcBpxy0r5pBkavK/view>

ATODIAD 1

AELODAETH CYSAG YM MIS EBRILL 2022

Awdurdod Lleol – Pwyllgor C (6 lle)

Y Cyngorydd Eddie Williams (Cadeirydd)	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Leighton Rowlands	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Geoff Cox	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Nic Hodges	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Julie Aviet	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Robert Crowley	Awdurdod Lleol

Cymdeithasau athrawon – Pwyllgor B (8 lle)

Carys Toozer
Jean-Marc Alter
Tyler Saunders
Swydd wag
Swydd wag
Swydd wag
Swydd wag
Swydd wag

Enwadau crefyddol a chredoau athronyddol anghrefyddol – Pwyllgor A (12 lle)

Moawia Bin-Sufyan	Islam
Dr Ramez Delpak	Bahá'í
Y Parch. Phillip Hibbert	Bedyddiwr
Kalpana Natarajan	Hindŵaeth
Elaine Holley	Bedyddiwr
Kathy Riddick (Is-gadeirydd)	Dyneiddiaeth
Claire Lewis	Yr Eglwys yng Nghymru
Bernadette Vella-Jones	Catholigiaeth
Swydd wag	
Swydd wag	
Swydd wag	
Swydd wag	

Aelodau cyfetholedig: 4 lle

Dafydd Treharne
Marged Williams
Swydd wag
Swydd wag

Swyddogion yr awdurdod lleol

Jeremy Morgan	Clerc CYSAG
Donna Graves	Cyngorydd Cyswllt Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer Addysg Grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a CYSAG

AELODAETH CYSAG YM MIS GORFFENNAF 2022

Awdurdod lleol – Pwyllgor C (6 lle)

Y Cyngorydd Eddie Williams (Cadeirydd)	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Nic Hodges	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Julie Aviet	Awdurdod Lleol

Swydd wag

Swydd wag

Swydd wag

Cymdeithasau athrawon – Pwyllgor B (8 lle)

Carys Toozer
Jean-Marc Alter
Tyler Saunders

Swydd wag

Swydd wag

Swydd wag

Swydd wag

Swydd wag

Enwadau crefyddol a chredoau athronyddol anghrefyddol – Pwyllgor A (12 lle)

Moawia Bin-Sufyan	Islam
Dr Ramez Delpak	Bahá'í
Y Parch. Phillip Hibbert	Bedyddiwr
Kalpana Natarajan	Hindŵaeth
Elaine Holley	Bedyddiwr
Kathy Riddick (Is-gadeirydd)	Dyneiddiaeth
Claire Lewis	Yr Eglwys yng Nghymru
Bernadette Vella-Jones	Eglwys Gatholig Rufeinig
Swydd wag	Iddewiaeth
Swydd wag	Sikhiaeth
Swydd wag	Eglwysi Rhyddion
Swydd wag	Bwdhaeth

Aelodau cyfetholedig: 4 lle

Dafydd Treharne
Marged Williams

Swydd wag

Swydd wag

Swyddogion yr awdurdod lleol

Jeremy Morgan

Clerc CYSAG

Donna Graves

Cyngorydd Cyswllt Consortiwm
Canolbarth y De ar gyfer Addysg
Grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a
Moeseg a CYSAG

Yn ystod y flwyddyn, bu newidiadau i aelodaeth Pwyllgor C oherwydd yr etholiadau ym mis Mai 2022.

ATODIAD 2: COFNOD O GYFARFODYDD A'R PRIF EITEMAU AR YR AGENDA

Cynhaliwyd pob cyfarfod ar-lein, trwy Microsoft Teams

3 Tachwedd 2021

- Croeso ac ymddiheuriadau
- Ethol/ailethol cadeirydd ac is-gadeirydd
- Diweddariadau aelodaeth
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol
- Materion sy'n codi
- Adroddiad Blynyddol 2020-2021
- Diweddariadau cwricwlwm
- CCYSAGauC
- Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig
- Amserlen cyfarfodydd y dyfodol
- UFA

9 Mawrth 2022

- Croeso ac ymddiheuriadau
- Aelodaeth
- Cofnodion
- Materion sy'n codi
- Cwricwlwm
- Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig
- CCYSAGauC
- Cymwysterau
- Cefnogaeth i ysgolion
- Amserlen cyfarfodydd y dyfodol
- UFA

15 Mehefin 2022

- Croeso ac ymddiheuriadau
- Aelodaeth CYSAG
- Cofnodion
- Materion sy'n codi
- Cwricwlwm
- CCYSAGauC
- Cymwysterau
- Adroddiadau Estyn
- Cefnogaeth i ysgolion
- Hyfforddiant i aelodau CYSAG
- Amserlen cyfarfodydd y dyfodol
- UFA

ATODIAD 3: CYLCHREDIAD YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

ANFONIR COPÏAU YN ELECTRONIG AT Y CYRFF PERTHNASOL. BYDD YR ADRODDIAD HWN AR GAEL AR WEFANNAU'R AWDURDOD LLEOL A CCYSAGAUC I BARTÏON Â DIDDORDEB EI LAWRLWYTHO.

- Aelodau CYSAG Bro Morgannwg
- Adran Addysg a Hamdden Cyngor Bro Morgannwg
- Holl ysgolion Bro Morgannwg
- Cymdeithas Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGauC)
- AdAS
- Llywodraeth Cymru
- Y Llyfrgell Genedlaethol
- Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru
- Consortiwm Canolbarth y De
- Estyn
- Mudiad Addysg Grefyddol (Cymru)
- Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr
- Swyddog Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru
- Swyddog Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Cytun

ATODIAD 4:

CYNGOR BRO MORGANNWG

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

CYFANSODDIAD A RHEOLAU SEFYDLOG

Cylch Gorchwyl

1. Cyngori'r awdurdod lleol ar faterion yn ymwneud ag addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.
2. Cyngori'r awdurdod lleol ar faterion yn ymwneud ag addysg grefyddol a roddir yn unol â'r maes llafur cytunedig.
3. Penderfynu pryd, o fewn yr amserlen statudol o bum mlynedd, y dylai'r awdurdod lleol adolygu ei faes llafur cytunedig.
4. Ystyried gyda'r awdurdod lleol a'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r maes llafur cytunedig.
5. Ystyried gyda'r awdurdod lleol y gefnogaeth a gynigir i addysg grefyddol yn ei ysgolion, gan roi sylw arbennig i ddulliau addysgu, y dewis o ddeunyddiau addysgu a darparu hyfforddiant i athrawon.
6. Cynnig cyngor ar unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'i swyddogaeth fel sy'n briodol yn ei farn ef.
7. Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith, a ddylai wneud fel a ganlyn:
 - a. nodi unrhyw faterion y mae wedi cyngori'r awdurdod lleol yn eu cylch
 - b. disgrifio'n fras natur y cyngor a roddwyd
 - c. nodi ei resymau dros gynnig cyngor ar unrhyw faterion na chyfeiriwyd ato yn y lle cyntaf gan yr awdurdod lleol

Dylai'r adroddiad hefyd ddilyn y canllawiau presennol gan Lywodraeth Cymru ar ei strwythur a'r wybodaeth y dylid ei chynnwys yn yr adroddiad.

8. Cymryd rhan yng ngweithdrefnau cwynion statudol yr awdurdod lleol yn yr achosion hynny lle mae'r cwynion yn ymwneud ag addysg grefyddol a/neu addoli ar y cyd.

9. Derbyn a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau gan benaethiaid ysgolion y sir i godi neu addasu'r gofynion bod yn rhaid i addoli ar y cyd mewn ysgolion o'r fath fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o gymeriad Cristnogol bras.

Cyfansoddiad CYSAG Bro Morgannwg

10. Bydd CYSAG yn cynnwys tri grŵp a fydd yn cynrychioli:
 - a. Enwadau Cristnogol ac enwadau crefyddol eraill fydd, ym marn yr awdurdod lleol, yn adlewyrchu'n briodol y traddodiadau crefyddol yn yr ardal, yn ogystal â phobl sy'n cynrychioli deiliaid credoau anghrefyddol yn yr un modd ag y mae'n caniatáu penodi pobl sy'n cynrychioli deiliaid credoau crefyddol (adran 390(4)(a) o Ddeddf 1996 a pharagraff 4(2)(1) o Atodlen 31 iddi).

Rhaid i'r credoau anghrefyddol y mae'r sawl a benodir yn glynu wrthynt fod yn gyfatebol i gred grefyddol. I fod yn "gyfatebol", ystyriwn fod yn rhaid i'r credoau anghrefyddol, yn unol â chyfraith achos o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998, gyrraedd y lefel angenrheidiol o rym, difrifoldeb, cydlyniant a phwysigrwydd i gael eu hamddiffyn o dan hawliau'r confensiwn.

Mae penodiad yn dibynnu ar farn CYSAG ynghylch p'un a fyddai deiliad credoau anghrefyddol yn helpu i sicrhau bod y traddodiadau perthnasol yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yng Ngrŵp A. Y CYSAG sydd â'r penderfyniad terfynol ynghylch penodiad, gan mai ef sydd yn y sefyllfa orau i asesu a oes gan y CYSAG yr arbenigedd a phrofiad angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaeth yn briodol.

- b. Cymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon a ddylai, ym marn yr awdurdod lleol, gael eu cynrychioli o ystyried amgylchiadau'r ardal.
- c. Yr awdurdod lleol.

Gall y cyngor hefyd gynnwys aelodau cyfetholedig.

Mae CYSAG Bro Morgannwg wedi cytuno ar yr aelodaeth ganlynol:

Cynrychiolwyr o draddodiadau crefyddol, enwadau a deiliaid credoau anghrefyddol

Er mwyn gwneud y CYSAG mor effeithlon â phosibl, ceisir aelodaeth o ystod eang o draddodiadau crefyddol a chan bobl sy'n cynrychioli

deiliaid credoau anghrefyddol a all, ar unrhyw adeg, fod yn uniongyrchol bresennol ym Mro Morgannwg.

12 o leoedd o ystod o grefyddau, enwadau a grwpiau credo anghrefyddol a allai gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Yr Eglwys yng Nghymru
- Yr Eglwys Gatholig
- Eglwysi Rhyddion
- Ffydd Bahâ'í
- Bwdhaeth
- Hindŵaeth
- Islam
- Iddewiaeth
- Sikhaeth
- Dyneiddiaeth

Cynrychiolwyr athrawon

Wyth lle o ystod o gymdeithasau athrawon. Rhaid i gynrychiolydd yr athrawon fod yn gyflogedig ar hyn o bryd ac yn gweithio o fewn ysgol ym Mro Morgannwg.

Yr awdurdod lleol

Chwe aelod yn cynrychioli'r awdurdod lleol.

Aelodau cyfetholedig (heb hawliau pleidleisio)

Hyd at bedwar aelod sydd â diddordeb mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ac a allant gynorthwyo'r pwyllgor yn ei swyddogaethau.

11. Bydd aelodaeth CYSAG Bro Morgannwg am gyfnod o bedair blynedd. Gellir ailbenodi unrhyw aelodau sy'n gadael.
12. Mae aelodaeth CYSAG Bro Morgannwg yn ddarostyngedig i'r amod bod yr awdurdod lleol wedi cymryd pob cam rhesymol i'w sicrhau ei hun bod y bobl a benodir yn gynrychioliadol, yn ôl y digwydd, o'r enwadau, cymdeithasau neu grŵp cred digrefydd dan sylw.
13. Rhaid i aelodau sy'n cynrychioli cymdeithasau athrawon gynnwys athrawon addysg grefyddol.
14. Gall unigolion gael eu tynnu o CYSAG Bro Morgannwg os ydynt yn peidio â bod yn gynrychioliadol o'r enwad, cymdeithas, grŵp cred digrefydd neu'r awdurdod y'u penodwyd i'w gynrychioli.
15. Gall unrhyw aelod o CYSAG Bro Morgannwg ymddiswyddo o'i swydd ar unrhyw adeg.

16. Bydd unrhyw aelod sy'n methu â mynychu tri chyfarfod yn olynol heb ymddiheuriad yn peidio â bod yn aelod. Ni chaiff unigolyn sydd wedi'i anghymhwysu felly ei atal rhag cael ei ailbenodi gan y corff enwebu priodol.

Trafodion ar gyfer cyfarfodydd CYSAG ym Mro Morgannwg

17. Bydd CYSAG Bro Morgannwg yn cyfarfod **ddim** llai nag unwaith bob tymor ysgol.
18. Bydd CYSAG yn ethol cadeirydd ac is-gadeirydd o'i aelodaeth yn y cyfarfod cyntaf ym mhob blwyddyn academaidd. Ni fydd y cadeirydd a'r is-gadeirydd mewn unrhyw flwyddyn yn cael eu dewis o'r un grŵp cynrychioliadol. Gellir ailbenodi cadeirydd sy'n gadael.
19. Ar unrhyw gwestiwn i'w benderfynu gan y CYSAG, dim ond y grwpiau cynrychioliadol ar CYSAG fydd â'r hawl i bleidleisio a bydd gan bob grŵp un bleidlais. Cyn cymryd pleidlais ffurfiol, rhoddir cyfle i bob grŵp cynrychioliadol benderfynu sut i fwrw ei bleidlais.
20. Nid oes gan aelodau cyfetholedig hawl i bleidleisio.
21. Bydd yr agenda ar gyfer pob cyfarfod yn cael ei phennu gan y cadeirydd neu'r is-gadeirydd mewn ymgynghoriad â chlerc CYSAG, y Cyfarwyddwr Addysg a swyddog proffesiynol. Bydd gan unrhyw aelod â phleidlais o CYSAG yr hawl i gynnig eitemau ar gyfer agenda o leiaf ugain diwrnod gwaith cyn unrhyw gyfarfod. Dim ond eitemau ar yr agenda y gellir eu hystyried mewn unrhyw gyfarfod ac eithrio yn ôl disgrisiwn y cadeirydd.
22. Yn achos unrhyw aelod nad yw'n gallu mynychu cyfarfod CYSAG, gall dirprwy gael ei enwebu gan y corff y mae'r unigolyn hwnnw'n ei gynrychioli, ar yr amod bod y dirprwy yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a bod Cyfarwyddiaeth Addysg yr awdurdod lleol a chlerc CYSAG yn cael eu hysbysu cyn y cyfarfod.
23. Bydd cyfarfod o CYSAG Bro Morgannwg yn cael ei ystyried yn gworwm os bydd o leiaf un aelod o bob un o'r tri grŵp cynrychioliadol yn bresennol. Ni fydd lle gwag yn swydd unrhyw aelod o CYSAG Bro Morgannwg yn effeithio ar ddilysrwydd trafodion CYSAG.
24. Gall y grwpiau cynrychioliadol ar CYSAG Bro Morgannwg, ac eithrio'r rhai sy'n cynrychioli'r awdurdod, ofyn, ar unrhyw adeg, am adolygiad o faes llafur cytunedig presennol yr awdurdod. Ar adeg o'r fath, bydd Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn cael ei chyfansoddi a'i chynnull.

25. Bydd CYSAG Bro Morgannwg yn ystyried ei adroddiad blynyddol yn y cyfarfod cyntaf a gynhelir ym mhob blwyddyn academiaidd. Ar ôl i'r Cyngor gadarnhau'r adroddiad, bydd yn symud ymlaen i'w gyhoeddi.
26. Bydd clerc CYSAG yn trefnu i gopïau o'r adroddiad blynyddol gael eu cyhoeddi ar wefan Bro Morgannwg, eu hanfon i bob ysgol o fewn yr awdurdod, i AdAS, i'r Llyfrgell Genedlaethol, ac at unrhyw unigolion a sefydliadau eraill a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod lleol.